

PN031 – HYSBYSIAD PREIFATRWYDD Y TÎM DYSGU A DATBLYGU

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwmo i amddiffyn eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau. Bwriad yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas â hynny a'r rhagofalon sy'n bodoli i'w amddiffyn.

Maes Gwasanaeth CBST:	Adnoddau
Maes Gwaith:	Tîm Dysgu a Datblygu
Manylion Cyswllt:	odteam@torfaen.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Dysgu a Datblygu

Rheolwr Data:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Os hoffech chi fynegi pryder ynglŷn â thrin eich data personol, cysylltwch â'r **Swyddog Diogelu Data** ar y manylion isod:

Ffôn: 01495 762200

E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a sefydliadau gofal cymdeithasol allanol sy'n bartneriaid, yn cynnwys dysgu ar-lein, digwyddiadau ystafell ddosbarth neu gymwysterau. Mae'r manylion isod yn esbonio sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

1) Pwy sy'n darparu eich data i'r Cyngor?

Mae'r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu yn cael ei darparu'n uniongyrchol gennych chi. Mae'r wybodaeth yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i:

- Ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth briodol ar eich cyfer
- Rhoi gwybod i chi am y gwasanaethau rydym yn eu darparu i chi
- Dibenion ymgeisio a chofrestru
- Helpu i reoli'r cynllunio a'r gwariant ar wasanaethau

- Sicrhau ansawdd a diogelu gwasanaethau
- Sicrhau bod gwasanaethau cofrestredig yn bodloni gofynion hyfforddiant rheoliadol (yn benodol, mewn perthynas â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Rheoliadau Gwasanaethau Maethu [Cymru] 2003 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig)
- Helpu i ymchwilio i unrhyw bryderon neu gwynion sydd gennych am y gwasanaethau
- Darparu gwybodaeth ystadegol yn ôl yr angen, i Ofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru (mae unrhyw wybodaeth bersonol yn ddienw)

Mewn rhai amgylchiadau (yn enwedig mewn perthynas ag archebu hyfforddiant ar-lein sy'n gofyn am gyfeiriadau e-bost i gofrestru) efallai y bydd adegau pan ddarperir data personol i ni yn anuniongyrchol ar eich rhan. (e.e. gan reolwr llinell neu gydlynnydd hyfforddiant). Byddwn yn sicrhau bod hyn bob amser yn digwydd gyda'ch caniatâd.

2) Sut mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth?

- Ceisiadau ar gyfrifiadur a ffurflenni archebu
- Gohebiaeth gyda ni dros y ffôn, mewn e-bost neu yn ysgrifenedig
- Llofnodi cofrestr y cwrs
- Llenwi ffurflen werthuso ar ôl y cwrs
- Cwblhau ymgynghoriad neu arolwg ar-lein
- Gofyn am wybodaeth gennym am gynhyrchion a/neu wasanaethau
- Rhestr dosbarthu cylchlythyron a bwletinâu (gofalwyr maeth neu eraill sy'n 'optio i mewn')

Yn ogystal, os byddwch yn ymweld â'n gwefan, efallai y byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol yn awtomatig:

- Gwybodaeth dechnegol, yn cynnwys cyfeiriad protocol y rhyngwyd (IP) a ddefnyddir i gysylltu eich cyfrifiadur â'r Rhyngwyd, gwybodaeth mewngofnodi, math o borwr a'r fersiwn, gosodiad parth amser, math o ategyn a fersiwn y porwr, system weithredu a'r plattfform;
- Gwybodaeth am eich ymweliad â'n gwefan fel y cynhyrchion a/neu'r gwasanaethau rydych chi'n chwilio amdanynt a'u gweld, amseroedd ymateb y dudalen, gwallau lawr lwytho, hyd ymweliadau â thudalennau penodol, gwybodaeth ynghylch rhyngweithiad tudalen (fel sgrolio, cliciau, a symudiadau llygoden), a dulliau a ddefnyddir i bori i ffwrdd o'r dudalen.

3) **Pa wybodaeth mae'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?**

Yn gyffredinol, gall y wybodaeth a gesglir ac a brosesir gan y Tîm Dysgu a Datblygu gynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad post
- Cyfeiriad e-bost – gwaith neu bersonol
- Rhif ffôn
- Manylion y cyflogwr
- Teitl swydd

Yn ychwanegol (**at ddibenion ymgeisio a chofrestru ar gyfer cymwysterau yn unig**) gall y Tîm Dysgu a Datblygu hefyd gasglu a phrosesu'r canlynol:

- Dyddiad Geni
- Gwybodaeth mewn perthynas â 'categoriâu arbennig' (gweler isod)
- Hanes cyflogaeth
- Hanes cymwysterau
- Rhif cofrestru
- Gwybodaeth DBS

4) **Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?**

O dan Erthygl 6 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR), y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

(a) Eich caniatâd. Mae hyn yn ofynnol os ydych yn tanysgrifio i dderbyn deunydd marchnata uniongyrchol gennym ni e.e. cylchlythyrau. Mae caniatâd yn berthnasol at y diben penodol y cafodd ei roi a hynny'n unig. Gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Nid ydym yn dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer unrhyw brosesu arall.

O ran cyrsiau hyfforddi a chymorth, rydym yn dibynnu ar un o'r canlynol, yn dibynnu ar gynnwys y cwrs.:

- (b) Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol
- (e) Mae arnom ei angen i gyflawni tasg gyhoeddus – i alluogi staff i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, cyrsiau sy'n ofynnol o dan y gyfraith/ein dyletswydd statudol
- (f) Mae gennym fuddiant dilys

5) **Categoriâu Arbennig o ddata personol:**

Rydym yn casglu'r data categori arbennig canlynol;

- data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig
- data sy'n ymwneud ag iechyd (anabledd)

Rydym yn ei gasglu dan Erthygl 9 GDPR y DU.

Pan fyddwn yn casglu data troseddol (DBS), caiff ei brosesu o fewn y Cyngor o dan Erthygl 10 o GDPR y DU.

6) **Pwy sydd yn cael defnyddio'ch data?**

Bydd eich data'n cael eu rhannu'n fewnol yn unig gyda'r staff priodol, pan fydd ei angen iddynt gyflawni eu rolau:

- Yr Uned Gomisiynu, Gofal Cymdeithasol a Thai
- Tîm Lleoli Teuluoedd, Gofal Cymdeithasol a Thai (Gofalwyr Maeth yn unig)
- Uwch Dimau Rheoli, Gofal Cymdeithasol a Thai
- Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Gweithwyr

Efallai y bydd eich data hefyd yn cael eu rhannu'n gyda sefydliadau eraill am y rhesymau a ganlyn:

- Dibenion ymgeisio a chofrestru (Cymwysterau)
- Mynediad i gyrsiau a digwyddiadau allanol
- Mynediad i gyfleoedd dysgu a datblygu eraill

Gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i;

- Timau Datblygu'r Gweithlu Awdurdodau Lleol eraill
- Canolfan Asesu a'r Corff Dyfarnu
- Darparwyr Hyfforddiant Allanol
- Sefydliadau Addysg Uwch (SAU)
- Sefydliadau Addysg Bellach (SAB)
- Gofal Cymdeithasol Cymru

Ar wahân i ble nodwyd yn flaenorol, nid ydym yn trosglwyddo eich manylion i unrhyw drydydd parti oni bai bod galw cyfreithiol i ni wneud hynny.

Ydy'r Data'n cael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU ?

Na

7) Sut mae'r Cyngor yn cadw eich data'n ddiogel?

Mae gan y Cyngor bolisiau mewnol ar waith i sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu yn mynd ar goll, cael ei ddinistrio, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu'n ddamweiniol. Cyfyngir ar fynediad i'r data hwn yn unol â pholisiau mewnol y Cyngor ac yn unol â GDPR y DU.

Bydd data'n cael eu storio'n ddiogel ar;

- Gronfa ddata System Rheoli Dysgu (LMS) trydydd parti, diogel
- Systemau ffeilio cyfrifiadurol mewnol diogel, yn cynnwys Microsoft Teams, a chronfeydd data (gwybodaeth archebu, Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi (TNA), archwiliad gweithlu)
- Cadw'r e-bost (am 3 mis yn unig)

Pan fydd y Cyngor yn defnyddio trydydd parti i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd parti dan sylw ddyletswydd cyfrinachedd hefyd ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

8) Am ba hyd mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Dim ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol y bydd y Cyngor yn cadw eich data personol a bydd yn dilyn safonau sefydliadol a safonau'r Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu'r data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

- | | |
|------------------------------------|-------------|
| • Mabwysiadu | 100 mlynedd |
| • Plant sy'n Derbyng Gofal | 75 mlynedd |
| • Diogelu Plant | 35 mlynedd |
| • Diogelu Oedolion | 15 mlynedd |
| • Gofal a Chymorth (rhan 4) | 10 mlynedd |
| • Gofalwyr Maeth | 75 mlynedd |
| • Goruchwyllo Statudol | 25 mlynedd |
| • Oedolion sydd â / heb anableddau | 8 mlynedd |
| • Pobl Hŷn | 8 mlynedd |
| • Therapi Galwedigaethol | 8 mlynedd |
| • Prydau Cymunedol | 6 mlynedd |
| • Iechyd Meddwl | 10 mlynedd |
| • Grantiau | 8 mlynedd |
| • Ffeiliau Cartrefi Preswyl | 25 mlynedd |

9) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/yn proffilio gyda'ch data?

Na

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- Mynediad - cael copi o'ch data ar gais
- Cywiro - mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Ddileu - mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- Symud data – cael derbyn a/neu drosglwyddo data a roddwyd i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig)
- Tynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg (ble rhoddwyd caniatâd)
- Gwybod y canlyniad os byddwch yn methu â darparu data i'r Cyngor
- Gwybod am fodolaeth unrhyw benderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi.
- Hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch ag AD a'r Tîm Dysgu a Datblygu (ldadmin@torfaen.gov.uk)

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH, Ffôn 0330 414 6421 neu e-bost ar [mailto: Wales@ico.org.uk](mailto:Wales@ico.org.uk)

